

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Number: 28/2011

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Dechrau'n Deg

Canfyddiadau o'r arolwg llinell sylfaen o deuluoedd - mapio anghenion a mesur dylanwad cynnar ymgysg teuluoedd gyda babanod rhwng saith ac 20 mis oed

Adroddiad cryno



Gwerthusiad o Dechrau'n Deg

Arolwg llinell sylfaen o deuluoedd

**Mapio anghenion a mesur dylanwad cynnar ymysg teuluoedd
gyda babanod rhwng saith ac 20 mis oed**

Adroddiad cryno

Ipsos MORI, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol

Barn yr ymchwilydd yw unrhyw farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Starkey

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 826734

E-bost: joanne.starkey@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011

© Hawlfraint y Goron

CYNNWYS

Cydnabyddiaeth	ii
Geirfa	1
Crynodeb gweithredol	3
Trosolwg	4
Gwerthusiad o Dechrau'n Deg – diben yr arolwg a'r dull	4
Beth oedd nodau a ffocws arolwg Ton 1?	6
Pwy yw'r teuluoedd Dechrau'n Deg a pha heriau maent yn eu hwynebu?.....	7
Ymwelwyr iechyd a gweithgareddau cymorth ehangach perthnasol.....	8
Cyrsgiau Rhianta a Rhaglenni Iaith a Chwarae	9
Profiadau rhieni o Dechrau'n Deg a'r effaith a welir ar eu plant	10
Ymwelwyr iechyd	10
A yw Dechrau'n Deg wedi cael ei dargedu'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion y grwpiau hynny gyda mwy o anghenion?	13
A yw Dechrau'n Deg wedi helpu i wella arferion magu plant o ran gofalu am blant ifanc a'u datblygiad?	14
Casgliadau.....	16

Ffigur 1: Defnyddwyr yn cofnodi eu hunain pa mor ddefnyddiol oedd yr ymwelydd iechyd, y tîm ymwelwyr iechyd a chynlluniau rhianta eraill yn yr 11 maes allweddol.....12

Tabl 1: Defnyddwyr yn cofnodi eu hunain am effaith y rhagleb iaith Chwarae ar faint o weithgareddau chwarae addysgiadol y mae rhieni'n gwneud â'u plant.....13

Cydnabyddiaeth

Consortiwm o sefydliadau sy'n cynnal y Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg, sef:

SQW

Ipsos MORI

Karl Ashworth

Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste

CRG Consulting

Comisiynwyd y gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Gwerthusiad, mae croeso i chi gysylltu â ni'n uniongyrchol:

gwefan: www.cymorthandflyingstartevaluation.co.uk

e-bost: joanne.starkey@wales.gsi.gov.uk

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Emma Wallace, Sarah Knibbs, David Jeans, Sarah Pope, Anastasia Knox, Patten Smith, Jamie Burnett ac Ivonne Nava-Ledezma o Ipsos MORI, gyda mewnbwn gan Lisa McCrindle, Marian Morris a Geoff White o SQW, a Karl Ashworth. Mae'n adeiladu ar waith y consortiwm sy'n cyflawni'r gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys: SQW, Karl Ashworth, Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste a CRG Consulting. Hoffem fynegi ein diolch yn benodol i Joanne Starkey o Lywodraeth Cymru, a'r partneriaethau Dechrau'n Deg ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a gefnogodd yr arolwg gan ddarparu gwybodaeth werthfawr am ddarpariaeth y rhaglen. Hoffem hefyd ddiolch i Linda Bloomfield ym Mhrifysgol Swydd Hertford am gael defnyddio'r offeryn TOPSE, ac yn olaf, hoffem ddiolch yn arbennig i'r 3,591 teulu a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr arolwg.

Adolygiad gan gymheiriaid

Mae adolygiad gan gymheiriaid yn broses bwysig sy'n cyfrannu at gynnal a chadw'r safonau uchel mewn cyhoeddiadau ymchwil. Mae'r adroddiad hwn wedi bod yn destun adolygiad gan gymheiriaid ac mae adolygydd annibynnol, di-enw, sy'n meddu ar yr arbenigedd priodol yn y meysydd academiaidd sy'n cael sylw yn y Gwerthusiad o Dechrau'n Deg, wedi pwysu a mesur digonolrwydd a theilyngdod yr ymchwil.

Geirfa

- **Ardaloedd difreintiedig** – ardaloedd y gellir eu disgrifio fel rhai 'difreintiedig' yn ôl y Mynegeion Amddifadedd Lluosog.
- **Teuluoedd Dechrau'n Deg** – Mae'r term hwn wedi cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i gyfeirio at y garfan o deuluoedd a oedd yn rhan o'r sampl yn yr astudiaeth hon (teuluoedd gyda phlentyn rhwng saith ac 20 mis oed sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg).
- **Cyswllt ag ymwelydd iechyd** – Mae hyn yn cyfeirio at gyswllt gydag ymwelydd iechyd neu aelodau eraill o'r tîm ymwelwyr iechyd, gan gynnwys cynorthwyydd ymwelydd iechyd, gweinyddes feithrin, arbenigwr chwarae neu weithiwr cymorth teulu.
- **Nifer fawr o ymweliadau â'r cartref gan yr ymwelydd iechyd** – Dros 11 ymweliad â'r cartref gan yr ymwelydd iechyd.
- **Grŵp risg uchel** – Rhieni sydd wedi profi iselder ar ôl geni ac sy'n dweud eu bod wedi teimlo'n isel am fwy na phythefnos ar ôl geni eu plentyn, neu sy'n yfed gormod o alcohol (mwy na 35 uned yr wythnos i fenywod neu 50 uned yr wythnos i ddynion), neu sydd wedi profi trais domestig yn eu perthynas.
- **Iaith a Chwarae** - Cyrsiau yw'r rhain a luniwyd i helpu rhieni a phlant i ddysgu gyda'i gilydd drwy chwarae a gwneud gweithgareddau llawn hwyl. Caiff cyrsiau eu cynnal mewn amrediad o sesiynau cymunedol yn ardaloedd Dechrau'n Deg.
- **Nifer canolig o ymweliadau â'r cartref gan yr ymwelydd iechyd** – Rhwng chwech a 10 ymweliad â'r cartref gan yr ymwelydd iechyd.
- **Anfanteision cymdeithasol-economaidd lluosog** - Rhieni neu deuluoedd sy'n byw mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio (dim un rhiant mewn gwaith cyflogedig ar hyn o bryd) ac sydd â lefel isel o gymwysterau (ddim uwch na TGAU/Lefel O) neu ddim cymwysterau o gwbl (sef dim un o'r cymwysterau y gofynnwyd amdanynt gan gynnwys cymwysterau academaidd

neu alwedigaethol) ac sydd ag incwm cartref gros sy'n llai na £10,000 y flwyddyn.

- **Dim ymweliad/nifer isel o ymweliadau â'r cartref gan yr ymwelydd iechyd** - Rhwng dim a phump ymweliad â'r cartref gan yr ymwelydd iechyd.¹
- **Rhiant/Rhieni** – Defnyddiwyd y term hwn yn gyffredinol i gyfeirio at yr ymatebydd a gyfwelwyd, sef prif ofalwr y plentyn perthnasol yn y cartref (yn hytrach na'r holl rieni a fyddai'n cynnwys y ddau riant mewn cartrefi gyda dau riant).
- **Grwpiau a chynlluniau rhianta** – Cynlluniau a grwpiau cymorth eraill ar rianta a luniwyd i ddarparu mathau eraill o gymorth ychwanegol i rieni.
- **Rhaglenni rhianta neu gyrsiau rhianta** – Cyrsiau rhianta strwythuredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i fod yn gymwys i gael cyllid fel rhan o'r hawl am gymorth rhianta, er enghraifft, y Blynyddoedd Rhyfeddol, Rhaglen Cysylltiadau Teuluol: Magu Plant ac ati.
- **Grwpiau gydag anghenion uwch o bosib** – Rhieni neu deuluoedd y mae o leiaf un o'r nodweddion canlynol yn berthnasol iddynt: neb yn gweithio yn y cartref; dim cymwysterau; cartref incwm isel (dan £10,000 gros y flwyddyn); rhiant ifanc (16 – 19 oed); wedi profi iselder ar ôl geni (wedi teimlo'n isel am fwy na phythefnos ar ôl geni plentyn); yfed yn drwm (mwy na 35 uned yr wythnos i ferched neu 50 uned yr wythnos i ddynion); unig riant; wedi profi trais domestig
- **Grŵp gyda llai o anghenion o bosib** – Rhieni neu deuluoedd sydd ddim yn bodloni unrhyw un o nodweddion uchod y grwpiau gydag anghenion uwch o bosib.
- **Rhieni ifanc** – Rhwng 16 a 19 oed oni nodir fel arall

¹ Ipsos MORI wnaeth ddiffinio nifer uchel, canolig ac isel o ymweliadau gan ymwelydd iechyd ar sail rhaniad yr ymatebion. Mae'n bosibl na fydd hyn yn cyfateb â'r diffiniad a ddefnyddiwyd gan y partneriaethau Dechrau'n Deg.

Crynodeb gweithredol

Cynhaliwyd yr arolwg fel rhan o'r gwerthusiad o Dechrau'n Deg ar gyfer Llywodraeth Cymru, er mwyn darparu tystiolaeth gadarn am natur y teuluoedd ac am yr anghenion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, am ddylanwad cynnar y rhaglen, ac er mwyn cyfrannu at ei ddatblygiad i'r dyfodol.

Mae teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael lefelau uwch o gymorth gan wasanaethau ymwelwyr iechyd, rhaglenni rhianta a chynlluniau iaith a Chwarae na'r rheini mewn ardaloedd cymharol ac maent yn teimlo'n fwy cadarnhaol am y gwasanaethau a'r gymorth a ddarperir i rieni. Mae defnyddwyr gwasanaethau o'r fath wedi sôn am yr effeithiau cadarnhaol arnynt hwy fel rhieni ac ar eu plant. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod ymwelwyr iechyd yn rhagweithiol wrth gyfeirio rhieni at fathau eraill o gymorth rhianta.

Mae'r arolwg yn nodi bod rhieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg gydag anghenion cymorth iechyd yn ogystal â rhieni tro cyntaf, ac, ar gyfer rhai hawliau, y rheini o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig, yn cael cymorth gan wasanaethau lleol sydd wedi'i dargedu'n well.

Gan edrych ar arferion magu plant, mae'r canfyddiadau'n dangos bod cyfran y teuluoedd sy'n canu i'w plant yn uwch yn ardaloedd Dechrau'n Deg nag ymysg y grŵp cymharol. I'r gwrthwyneb, mae'r dadansoddiad yn dangos bod cyfraddau bwydo ar y fron a'r niferoedd sy'n cael eu himiwneiddio yn is nag mewn ardaloedd cymharol.

Trosolwg

- 1.1. Lansiodd y Rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006/7 a'i nod oedd 'gwneud gwahaniaeth yn yr ardaloedd o dan ei ofal i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed'. Caiff ei dargedu'n ddaearyddol i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae ar gael i'r holl deuluoedd gyda phlant rhwng dim a thair blwydd oed yn yr ardaloedd hynny. Ei nod yw gwella'r canlyniadau i blant drwy ddarparu pedwar hawl gwasanaeth allweddol: gwell cymorth gan ymwelwyr iechyd, cyrsiau rhianta yn seiliedig ar dystiolaeth, rhaglenni iaith a Chwarae, gofal plant am ddim i blant dwy a thair blwydd oed ac eraill, a hefyd canolbwyntio'n gyffredinol ar ganfod anghenion cymorth ychwanegol yn gynnar. Er efallai bod rhai o'r gwasanaethau hyn ar gael mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg, byddai'r rhaglen Dechrau'n Deg yn arwain at lefel llawer dwysach o gymorth ac yn llawer mwy egniol wrth hybu'r hawliau hyn i rieni.
- 1.2. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ton gyntaf yr arolwg hydredol o deuluoedd gyda phlant dan ddwy oed² yn ardaloedd darparu Dechrau'n Deg ac ardaloedd sampl cymharol. Cynhaliwyd yr arolwg gan Ipsos MORI gyda chymorth SQW.
- 1.3. Cynhaliwyd yr arolwg fel rhan o werthusiad Dechrau'n Deg ar gyfer Llywodraeth Cymru, er mwyn darparu tystiolaeth gadarn am natur y teuluoedd ac am yr anghenion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, am ddylanwad cynnar y rhaglen, ac er mwyn cyfrannu at ei ddatblygiad i'r dyfodol.

Gwerthusiad o Dechrau'n Deg – diben yr arolwg a'r dull

- 1.4. Cynhaliwyd gwaith maes arolwg Ton 1 rhwng 8 Mawrth a 11 Awst 2010. Samplwyd 3,591 o deuluoedd gyda phlant dan 2 oed ar hap o Gofnodion Budd-daliadau Plant. Cyfwelwyd 1,776 o deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg a chynhaliwyd 1,815 cyfweiliad mewn ardaloedd cymharol. Defnyddiwyd sampl yr ardal gymharol er mwyn helpu i amcangyfrif, drwy ddull modelu ystadegol, y 'gwrthffeithiol' (hynny yw, beth fyddai'r canlyniad pe na bai'r

² Roedd plant yn y sampl a gafwyd rhwng saith ac 20 mis oed, er ei fod yn cynnwys nifer fach o fabanod (28 i gyd) rhwng 21 a 26 mis oed.

rhaglen Dechrau'n Deg ar waith). Gwnaethpwyd hyn i greu mesur meintiol o effaith Dechrau'n Deg ar bob canlyniad a fesurwyd.

- 1.5. Comisiynwyd y gwerthusiad ar ôl dechrau rhoi'r rhaglen Dechrau'n Deg ar waith fesul cam. Golyga hyn nad oedd yn bosibl cael arolwg llinell sylfaen gwirioneddol cyn dechrau cyflwyno Dechrau'n Deg. Hefyd, rhoddwyd y rhaglen Dechrau'n Deg ar waith yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru; felly nid oedd yn bosibl cael Hap-dreial wedi'i Reoli a fyddai'n galluogi priodoli unrhyw wahaniaethau a welwyd yn llwyr i Dechrau'n Deg.
- 1.6. Felly, defnyddiodd y tîm gwerthuso gynllun lled-arbrofol (*quasi-experimena*) i fesur effaith cynnar drwy gymharu'r gwahaniaeth mewn canlyniadau rhwng y sampl Dechrau'n Deg a grŵp cymharol ar ôl dechrau rhoi'r rhaglen ar waith. Lluniwyd y grŵp cymharol i fod mor debyg â phosibl i'r grŵp Dechrau'n Deg³, ond mae'n anorod bod rhai gwahaniaethau nad oedd modd eu rheoli.
- 1.7. Y cynllun a'r dulliau a fabwysiadwyd oedd y rhai mwyaf effeithiol posibl. Maent yn ddefnyddiol er mwyn ein galluogi i adeiladu darlun eang o ddylanwad cynnar tebygol y rhaglen, ond rhaid cadw rhai materion mewn cof. Mae diffyg data llinell sylfaen a'r ffaith na fyddai byth yn bosibl cael grŵp cymharol sydd 100% yr un peth⁴ yn golygu na allwn fod yn gwbl hyderus i ba raddau mae sgoriau unrhyw ganlyniadau uwch yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gallu cael eu priodoli i Dechrau'n Deg; neu a ydynt yn syml yn adlewyrchu pwyntiau cychwynnol gwahanol rhwng y ddwy sampl a chyfyngiadau'r cyfatebu. Fodd bynnag, o gofio'r lefelau uwch o amddifadedd a welwyd yn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'n rhesymol tybio bod y pwyntiau cychwyn cyn Dechrau'n Deg yn is mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nag yn yr ardaloedd sampl cymharol mewn llawer o'r canlyniadau a fesurwyd. A dweud y gwir, mae data yn dangos ar amrywiaeth o agweddau bod ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy difreintiedig nag ardaloedd cymharol (gan gynnwys lefelau sgiliau, sgoriau Mynegai Amddifadedd Lluosog, cyfran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim ac ati).⁵ **O gofio hyn, mae'n fwy tebygol bod yr amcangyfrifon am**

³ Dewiswyd yr ardaloedd sampl cymharol o blith ardaloedd a oedd mor debyg â phosibl i ardaloedd Dechrau'n Deg (e.e. ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig nesaf) a cheisiwyd lleihau'r gwahaniaethau rhwng y samplau gymaint â phosibl drwy ddefnydd cynhwysfawr o dechnegau cyfateb sgoriau tuedd (*propensity score matching*) a dadansoddi atchweliad (*regression analysis*).

⁴ Mae hyn yn wir mewn llawer o astudiaethau cynllunio lled-arbrofol.

⁵ Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adroddiad llinell sylfaen 'Final Flying Start Baseline 10.11.08' sydd ar gael yma <http://www.cymorthandflyingstartevaluation.co.uk/publications>.

ddylanwad cynnar Dechrau'n Deg ar lawer o'r canlyniadau dulliau magu plant a fesurwyd yn rhy isel yn hytrach na'n rhy uchel.⁶ Serch hynny, nid oes modd pennu cyfeiriad unrhyw ogwydd mewn amcangyfrifon effaith defnyddio gwasanaeth gan fod y berthynas rhwng defnyddio gwasanaeth ac amddifadedd yn fwy cymhleth.

- 1.8. At hynny, mae'n bwysig cofio ar adeg gwaith maes yr arolwg roedd darpariaeth hawliau Dechrau'n Deg yn amrywiol (fel y nodwyd yn adroddiad y gwerthusiad interim o Dechrau'n Deg) ond tybiwyd ei fod yn mynd i'r cyfeiriad cywir i wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg.⁷ Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu'r gwersi o'r gwerthusiad interim ond ni fyddai unrhyw ddatblygiadau i'r rhaglen wedi cael digon o amser i wneud gwahaniaeth cyn cynnal gwaith maes yr arolwg.
- 1.9. Cynhaliwyd yr arolwg mewn cyfnod gymharol gynnar yng ngweithrediad y rhaglen ac ymysg teuluoedd gyda phlant ifanc iawn (dan ddwy oed). Golyga hyn mai cymharol gyfyngedig fyddai'r ystod o wasanaethau Dechrau'n Deg y byddai teuluoedd wedi'u cael adeg gwaith maes Ton 1. Felly, nid yw'r adroddiad hwn yn seiliedig ar berfformiad cyflawn Dechrau'n Deg. Yn hytrach, dyma'r cyfle cyntaf i adrodd ar ddata meintiol gan deuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r cyfle cyntaf i nodi dylanwadau cynnar y rhaglen cyn belled â phosibl.
- 1.10. Ceir rhagor o fanylion am y dull dadansoddi a chyfyngiadau'r dull hwnnw yn y cyflwyniad i'r prif adroddiad.

Beth oedd nodau a ffocws arolwg Ton 1?

- 1.11. Lluniwyd Ton 1 yr arolwg i archwilio dylanwad cynnar Dechrau'n Deg ar ystod gyfyngedig o ddangosyddion yn ogystal â darparu proffil o deuluoedd Dechrau'n Deg a'u hanghenion.
- 1.12. O gofio bod y plant yn y garfan sampl mor ifanc (rhwng saith ac 20 mis oed)⁸, rhoddwyd blaenoriaeth yn y dadansoddiad i'r defnydd a'r profiad o wasanaethau ymwelwyr iechyd, yr ymwybyddiaeth o wasanaethau eraill ac

⁶ Byddai'n bosibl llunio casgliadau mwy cadarn o'r dadansoddiad effaith yn Nhon 2 petai gwybodaeth fwy cyflawn ar gael am y sefyllfa cyn Dechrau'n Deg ac am gyd-destun cyflenwi'r gwasanaeth o ffynonellau monitro neu weinyddol.

⁷ Gweler <http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/3641013/?skip=1&lang=cy>

⁸ Yn hytrach na'r ystod lawn hyd at dair oed yn y rhaglen Dechrau'n Deg gyfan.

atgyfeirio. Hefyd, archwiliwyd effeithiau *dangosol* cynnar hefyd ar ystod gul o arferion magu plant, sef bwydo babanod, imiwneiddio ac amrediad cyfyngedig o weithgareddau dysgu yn y cartref. Bydd ail don yr arolwg yn archwilio ystod fwy cyflawn o effeithiau, er enghraifft, datblygiad cymdeithasol a gwybyddol plant, lles plant, arferion magu plant mewn perthynas ag amgylchedd y cartref, anrhefn yn y cartref a rhwydweithiau cefnogi.

- 1.13. Er bod Dechrau'n Deg ar gael i'r holl deuluoedd gyda phlant rhwng dim a thair blwydd oed yn yr ardal darged, nod y rhaglen yw darparu cymorth wedi'i deilwra yn dibynnu ar anghenion teuluoedd unigol. Efallai bod disgwyl i deuluoedd gyda lefelau uwch o anghenion gael lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd ac atgyfeiriadau i wasanaethau eraill o'i gymharu â theuluoedd eraill.⁹ Felly, mae'r dadansoddiad wedi archwilio pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen o ran cyrraedd grwpiau gydag anghenion uwch, rai ohonynt ag anghenion cymhleth ac eraill y mae gwasanaethau'n ei chael yn anodd ymgysylltu â nhw.

Pwy yw'r teuluoedd Dechrau'n Deg a pha heriau maent yn eu hwynebu?

- 1.14. **Roedd teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn arddangos lefelau uchel o anfantais ac, o ganlyniad, mae'n debyg y bydd llawer ohonynt yn wynebu heriau o ran rhoi'r dechrau gorau i'w plant mewn bywyd.**

Mae bron tri chwarter y teuluoedd (72 y cant) wedi profi o leiaf un o'r 'ffactorau risg' canlynol:

- Cartref lle nad oes neb yn gweithio (46 y cant o rieni);
- dim cymwysterau (23 y cant o rieni);
- incwm isel dan £10,000 y flwyddyn (28 y cant o rieni);
- rhiant ifanc rhwng 16 a 19 oed (saith y cant o rieni);
- iselder ar ôl geni (33 y cant o rieni);
- yfed yn drwm (un y cant o rieni);
- unig riant (39 y cant o deuluoedd) a
- phrofiad o drais domestig (pedwar y cant o rieni).

⁹ Mae'r adroddiad hwn yn trafod 'atgyfeirio i wasanaethau eraill'. Mae 'atgyfeirio' yn golygu gofyn i'r rhieni a fyddent yn dymuno mynychu gwasanaeth a ddarperir gan ymwelydd iechyd neu ymarferydd Dechrau'n Deg, yna gall y rhieni benderfynu a ydynt am fynd i'r gwasanaeth ai peidio. Nid yw'n 'atgyfeiriad' swyddogol.

- 1.15. Mae'r mathau hyn o deuluoedd yn llai tebygol o gael cartref heddychlon (mae 76 y cant yn cytuno bod eu cartref yn heddychlon o'i gymharu ag 81 y cant o'r rhai heb ddim un o'r 'ffactorau risg'), ac yn ysmegu (52 y cant o'i gymharu â 25 y cant). Fel y trafodir ymhellach yn nes ymlaen, maent hefyd yn llai tebygol o ddiddyfnu eu plant ar yr oedran optimwm neu i ddysgu yn y cartref (er enghraifft, 26 y cant sy'n darllen i'w plant fwy nag unwaith y diwrnod o'i gymharu â 31 y cant o deuluoedd eraill).

A yw cynnig mwy o wasanaethau'n arwain at fwy o bobl yn manteisio ar y gwasanaeth?

- 1.16. **Ar y cyfan, mae teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau Dechrau'n Deg sy'n berthnasol i fabanod ifanc, o'i gymharu â'r grŵp cymharol cyfatebol.** Nodwyd bod mwy o gyswllt ag ymwelydd iechyd yn ardaloedd Dechrau'n Deg, yn ogystal â gwell ymwybyddiaeth o fathau eraill o gymorth rhianta a gwell presenoldeb ynddynt. Mae'n amlwg hefyd bod ymwelwyr iechyd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn frwd wrth atgyfeirio i fathau eraill o gymorth rhianta.

Ymwelwyr iechyd a gweithgareddau cymorth ehangach perthnasol

- 1.17. **Mae teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi cael mwy o gyswllt gydag ymwelwyr iechyd – ar gyfartaledd 17.7 cysylltiad fesul teulu. Amcangyfrifir bod hyn yn 1.1 cyswllt ychwanegol ar gyfartaledd o'i gymharu â theuluoedd yn y grŵp cymharol.** Mae teuluoedd hefyd yn cael fwy o ymweliadau â'r cartref – 8.5 ymweliad ar gyfartaledd, sy'n cynrychioli 1.5 ymweliad yn fwy. Er nad oes targedau ar gyfer nifer y cysylltiadau gydag ymwelydd iechyd, mae'r cyswllt ychwanegol hwn yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn is nag a ragwelwyd. O gofio bod lefelau o gymorth gan ymwelwyr iechyd yn ddibynnol ar yr angen, efallai bod y lefel hon o gyswllt ar gyfartaledd yn cynrychioli mwy o gyswllt wedi'i dargedu at grŵp llai o deuluoedd sydd fwyaf mewn angen. Mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd generig hefyd yn cael ei ddarparu ar sail angen. Gallai'r nifer isel o ymweliadau ychwanegol mewn ardaloedd Dechrau'n Deg fod o ganlyniad i'r ffaith bod teuluoedd yn yr ardaloedd cymharol hefyd yn gymharol ddifreintiedig ac felly maent hwythau hefyd yn cael mwy na'r nifer cyfartalog o ymweliadau gan y gwasanaeth

ymwelwyr iechyd generig. **At hynny, mae 64 y cant o rieni wedi ymgysylltu â grwpiau cymorth perthnasol ychwanegol (er enghraifft, tyllino babanod) neu grwpiau cymorth i rieni anffurfiol eraill, neu wedi derbyn cynnyrch am ddim, megis pecynnau diogelwch yn y cartref.** Mae'r dadansoddiad effaith yn dangos bod hyn yn cynnwys amcangyfrif bod 25.4 y cant yn fwy o rieni yn debygol o fod yn defnyddio'r gwasanaethau hynny, o'i gymharu â'r sampl cymharol cyfatebol.

- 1.18. **Mae ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn rhagweithiol wrth annog rhieni i fanteisio ar gymorth rhianta ehangach.** Roedd ymwelwyr iechyd wedi gofyn i dri chwarter y rhieni (75 y cant) sy'n ymwybodol o gynlluniau a grwpiau rhianta fanteisio ar un o'r gweithgareddau hyn, sy'n cynnwys amcangyfrif bod 28.4 y cant yn fwy yn gwneud hynny mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, o'i gymharu â'r rheini yn y grŵp cymharol. Yn yr un modd, roedd ymwelwyr iechyd wedi gofyn i un ym mhob pump (20 y cant) o rieni fynychu'r rhaglen laith a Chwarae¹⁰ sy'n cynnwys amcangyfrif bod 12.9 y cant yn fwy yn ardaloedd Dechrau'n Deg.¹¹ Yn wir, mae ymwelwyr iechyd yn allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o raglenni rhianta a'r rhaglen laith a Chwarae. Yn ôl y teuluoedd, dyma'r ffordd fwyaf cyffredin o gael gwybod am yr hawliau hyn.

Cyrsiau Rhianta a Rhaglenni laith a Chwarae

- 1.19. **Mae cyfran sylweddol o rieni bellach yn ymwybodol o gyrsiau rhianta ac yn eu defnyddio.** Mae bron traean y rhieni'n ymwybodol o gyrsiau rhianta (30 y cant) ac mae naw y cant yn eu defnyddio. Amcangyfrifir bod hyn yn cynnwys 11.5 y cant yn fwy sy'n ymwybodol ohonynt a hyd at bedwar y cant yn fwy sy'n eu defnyddio yn ardaloedd Dechrau'n Deg, o'i gymharu â'r grŵp cymharol cyfatebol. Mae'r canfyddiadau hyn yn gadarnhaol o gofio nad oedd disgwyl effaith fawr ar hyn o bryd oherwydd oed y plant yn yr arolwg a bod llawer o'r cyrsiau rhianta wedi'u llunio ar gyfer plant hŷn.

¹⁰ Mae laith a Chwarae yn cynnwys rhieni/gofalwyr lle maent yn dysgu gyda'i gilydd drwy chwarae a gwneud gweithgareddau llawn hwyl. Dylid cynnig mynediad at raglenni laith a Chwarae ym mhob ardal Dechrau'n Deg, ac yn debyg i sesiynau cyrsiau rhianta, mewn theori maent yn agored i bob rhiant, ond yn ymarferol maent hefyd wedi'u targedu at yr angen ac mewn llawer o achosion, maent wedi'u cysylltu â gwasanaethau eraill megis clinigau, cyrsiau rhianta a gofal plant.

¹¹ Ni fyddem yn disgwyl bod y niferoedd sy'n manteisio ar raglenni laith a Chwarae yn uchel ar hyn o bryd o gofio oed y plant yn ein sampl.

1.20. Yn fwy na hynny, roedd ychydig dros draean y rhieni (37 y cant) yn ymwybodol o raglenni laith a Chwarae yn eu hardal, gan gynnwys hyd at oddeutu 22.8 y cant yn fwy yn ymwybodol o'r rhaglen yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae tua un ym mhob 10 (12 y cant) o deuluoedd wedi mynychu cwrs laith a Chwarae.

Profiadau rhieni o Dechrau'n Deg a'r effaith a welir ar eu plant

Cymorth i rieni yn gyffredinol

1.21. **Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.** Mae rhan fwyaf y rhieni'n teimlo'n gadarnhaol am safon eu gwasanaethau rhianta lleol. Mae oddeutu dwy ran o dair yn sgorio'r cyfleusterau, y gwasanaethau, y cymorth sydd ar gael i deuluoedd a'r cyngor a'r cymorth lleol ynghylch gofalu am blentyn yn 'dda iawn' neu'n 'weddol dda' (64 y cant a 68 y cant yn y drefn honno). Mae'r dadansoddiad effaith yn amcangyfrif bod hyn yn cynnwys chwech y cant ac 11 y cant yn fwy o rieni yn sgorio'r rhain fel 'da iawn' neu 'weddol dda' yn ardaloedd Dechrau'n Deg, o'i gymharu â'r sampl cymharol.

Ymwelwyr iechyd

1.22. **Mae rhan fwyaf y rhieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn teimlo'n gadarnhaol am gymorth ymwelwyr iechyd. Mae rhieni hefyd yn sôn am y manteision iddynt hwy a'u plant o ganlyniad i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, byddai tua un ym mhob pum rhiant yn dymuno cael rhagor o gymorth eto.**


1.23. Dywed bron tri chwarter y rhieni (73 y cant) eu bod yn gallu cysylltu â'u hymwelydd iechyd yn rhwydd y rhan fwyaf o'r amser, yn cynnwys 9.7 y cant yn fwy mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae naw ym mhob 10 (90 y cant) yn dweud bod y cymorth yn ddefnyddiol, yn cynnwys chwech ym mhob 10 (61 y cant) sy'n dweud bod y cymorth yn ddefnyddiol *iawn*. Yn ôl y dadansoddiad effaith, amcangyfrifir bod hyn yn uwch yn ardaloedd Dechrau'n Deg (chwe phwynt canran yn uwch). At hynny, mae wyth ym mhob 10 (79 y cant) yn dweud eu bod yn cael digon o gymorth, (yn cynnwys pedwar y cant yn fwy

mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, o'i gymharu â'r grŵp cymharol cyfatebol). Fodd bynnag, ymysg y rheini sy'n dymuno cael rhagor o gymorth, mae'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni hyn yn canolbwyntio fwy ar sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu bodloni (soniwyd am hyn gan 39 y cant o'r rheini a fyddai'n hoffi cael rhagor o gymorth), sicrhau bod teuluoedd yn gallu cysylltu â'u hymwelydd iechyd yn rhwydd (24 y cant) a gwneud oriau agor y clinig yn fwy hwylus (wyth y cant).

- 1.24. Ymysg y ddwy ran o dair o rieni (64 y cant) sydd wedi cael cymorth gan gynlluniau a grwpiau rhianta ac ymwelwyr iechyd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol bod y gwasanaethau a gawsant wedi helpu gyda magu plant: mae wyth ym mhob 10 yn dweud bod ganddynt fwy o hyder fel rhiant (79 y cant) ac mae tri chwarter ohonynt (75 y cant) yn dweud eu bod wedi helpu i wneud penderfyniadau am sut i ofalu am eu baban.
- 1.25. Gan edrych ar agweddau eraill, mae cyfran uchel hefyd yn dweud eu bod wedi helpu i ddeall datblygiad cyffredinol eu plentyn (76 y cant) a sut i gael y baban i drefn reolaidd (65 y cant) fel y dangosir yn y siart isod. Mae cyfran is wedi cael help gyda bwydo ar y fron a phroblemau bwyta a chysgu'r baban. Yr agweddau hyn, yn ogystal â dyhead i gael rhagor o wybodaeth am y cyngor a'r cymorth arall sydd ar gael yn lleol, yw'r materion y mae'r cyfrannau uchaf o bobl angen rhagor o help â nhw (tua un ym mhob 10 ar gyfer pob un). O gofio bod bwydo ar y fron a diddyfnu yn ddangosyddion allweddol ar gyfer y rhaglen, byddai'n ddefnyddiol i lunwyr polisi a phartneriaethau ystyried goblygiadau'r canfyddiadau hyn wrth symud ymlaen. Yn wir, mae'n bosibl bod cysylltiad rhwng y cyfrannau is sy'n dweud y byddent yn dymuno cael rhagor o help gyda bwydo ar y fron a'r amrywiaeth yn narpariaeth cymorth o'r fath yng Nghymru yn ystod gwaith maes Ton 1. Mae tîm polisi Dechrau'n Deg wedi nodi hyn.

Ffigur 1: Defnyddwyr yn cofnodi eu hunain pa mor ddefnyddiol oedd yr ymwelydd iechyd, y tîm ymwelwyr iechyd a chynlluniau rhianta eraill yn yr 11 maes allweddol

C. Ac, i ba raddau, os o gwbl, mae cyswllt gyda'r ymwelydd iechyd a'r tîm ymwelwyr iechyd a mynychu'r cwrs [rhowch enw'r cwrs] wedi'ch helpu gyda'r canlynol...



Sylfaen: Rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi mynychu un neu fwy o grwpiau/cynlluniau rhianta (ac eithrio amherthnasol), - sylfaen mewn cromfachau Dyddiadau'r gwairth maes: 8 Mawrth – 11 Awst 2010

Cyrsiau Rhianta a Rhaglenni Iaith a Chwarae

- 1.26. **Mae rhan fwyaf y rhieni sydd wedi defnyddio cyrsiau rhianta Dechrau'n Deg a rhaglenni iaith a Chwarae yn gadarnhaol tuag atynt, ac mae llawer yn sôn am effeithiau cadarnhaol iddynt hwy a'u plant.**
- 1.27. Ymysg y naw y cant o rieni sydd wedi defnyddio cyrsiau rhianta, mae'r rhelyw yn dweud bod y cwrs/cyrsiau wedi eu helpu 'llawer iawn' neu 'cryn dipyn' o ran eu hyder fel rhiant (83 y cant), eu gallu i ddeall eu plentyn (80 y cant) a'u perthynas â'u plentyn (79 y cant), fel y dangosir yn y tabl isod. At hynny, mae tua dau ym mhob pum rhiant (42 y cant) yn dweud eu bod wedi sylwi bod ymddygiad eu plentyn wedi newid ers mynychu'r cwrs.
- 1.28. Yn yr un modd, ymysg y 12 y cant o rieni sydd wedi defnyddio rhaglenni iaith a Chwarae, mae tua hanner y rhieni yn dweud bod eu baban, o ganlyniad i fynychu'r rhaglen, yn dangos mwy o ddiddordeb mewn llyfrau neu straeon (55 y cant), cyfri pethau (48 y cant) a bod eu baban yn gwybod mwy o ganeuon a rhigymau na chynt (57 y cant).

Tabl 1: Defnyddwyr yn cofnodi eu hunain am effaith y rhaglen laith a Chwarae ar faint o weithgareddau chwarae addysgiadol y mae rhieni'n gwneud â'u plant¹²

	Rhannu straeon (%)	Siarad â'ch plentyn (%)	Canu caneuon a rhigymau (%)	Cyfri pethau gyda'n gilydd (%)
Mwy	52	45	60	49
Llai	1	2	*	2
Tua'r un faint	45	51	38	47
Dim yn gwybod	1	2	2	2

Sylfaen: 220 o rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi mynychu rhaglen laith a Chwarae

A yw Dechrau'n Deg wedi cael ei dargedu'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion y grwpiau hynny gyda mwy o anghenion?

- 1.29. **Cymysg yw'r ateb i'r cwestiwn i ba raddau mae Dechrau'n Deg yn llwyddiannus wrth ddarparu cymaint o gymorth â phosibl i'r grwpiau gyda'r lefelau uchaf o anghenion.**
- 1.30. **Ar hyn o bryd, mae'r cymorth estynedig Dechrau'n Deg gan ymwelwyr iechyd ac eraill yn tueddu i fod yn fwyaf llwyddiannus yn cyrraedd rhieni gydag anghenion iechyd ychwanegol:** mae rhieni gyda chyflwr cyfyngus hirdymor neu iselder ar ôl geni wedi cael mwy o ymweliadau gan ymwelwyr iechyd na'r cyffredin ac maent yn fwy tebygol o fod wedi mynychu rhaglenni rhianta. **Mae Dechrau'n Deg hefyd wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ddarparu cymorth ychwanegol i rieni tro cyntaf.** Mae'r grŵp hwn wedi cael nifer uwch o gyswllt gydag ymwelydd iechyd na rhieni profiadol ac maent yn fwy tebygol nag eraill i ddweud bod y cymorth wedi cael effaith gadarnhaol o ran eu helpu i ofalu am eu baban. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd canfu'r arolwg hefyd fod y grŵp hwn yn llai tebygol o fwydo ar y fron neu gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn y cartref. Fodd bynnag, mae'r grŵp hwn ymysg y mwyaf tebygol o ddweud y byddent yn dymuno cael *hyd yn oed rhagor* o gymorth gan eu hymwelydd iechyd (25 y cant o'i gymharu â 21 y

¹² Cofiwch fod y data yn y tabl hwn yn seiliedig ar effaith ymddangosiadol y rhaglen laith a Chwarae ar eu plentyn, ac nid yw wedi'i fesur gan ddadansoddiad effaith ystadegol.

cant ar gyfartaledd). At hynny, nid yw rhieni tro cyntaf yn ddim mwy tebygol o ddefnyddio grwpiau rhianta na mynychu rhaglenni rhianta ac maent yn llai tebygol o fynychu rhaglen Iaith a Chwarae.

- 1.31. Mae **rhieni rhwng 20 a 24 oed** yn cael mwy o gyswllt ag ymwelydd iechyd er nad ydynt yn ddim mwy tebygol o gymryd rhan mewn cynlluniau neu grwpiau rhianta, rhaglenni rhianta neu raglen Iaith a Chwarae na rhieni'n gyffredinol.
- 1.32. Mae **rhieni gydag incwm cartref gros sy'n llai na £10,000 y flwyddyn** a'r rheini **mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio** wedi cael mwy o gyswllt ag ymwelwyr iechyd na theuluoedd ar gyfartaledd.
- 1.33. **Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod defnydd o raglenni Iaith a Chwarae yn tueddu i fod yn fwy cyffredin ymysg y grwpiau cymharol fwy breintiedig ac addysgedig, a bod y gyfradd isaf ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, yn aml y rhieni sydd â'r anghenion mwyaf sydd fwyaf cadarnhaol am effaith y rhaglen Iaith a Chwarae ar eu plentyn ac sy'n fwy tebygol o roi'r gwersi a ddysgant ar waith yn y cartref.** Er enghraifft, mae rhieni gydag anfanteision lluosog economaidd-gymdeithasol yn hynod debygol o ddweud eu bod yn deall beth mae eu baban yn ei ddweud neu'n ei wneud ar ôl mynychu rhaglen Iaith a Chwarae. Mae'n galonddid bod yr effaith fwyaf yn cael ei nodi gan rieni sydd â'r anghenion mwyaf. Awgryma hyn fod y rhaglen Iaith a Chwarae wedi cael ei llunio'n dda i helpu'r rheini sydd angen yr help mwyaf. Fodd bynnag, bydd yn bwysig rhoi sylw i'r lefelau is o'r grwpiau mwyaf anghenus sy'n cymryd rhan ac efallai asesu sut caiff y rhaglen ei hyrwyddo i rieni yn y sefyllfa hon.
- 1.34. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd adolygu sut caiff amser ymwelwyr iechyd ei neilltuo o ran eu ffocws ar grwpiau gwahanol, yn ogystal â'r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu â rhieni mewn amgylchiadau anodd a'r rheini sydd efallai'n llai ymwybodol o fanteision cymorth yr ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cymorth eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai gwaith ymgysylltu ychwanegol yn fuddiol ymysg rhai adrannau o'r gymuned.

A yw Dechrau'n Deg wedi helpu i wella arferion magu plant o ran gofalu am blant ifanc a'u datblygiad?

- 1.35. **Mae llawer o rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gwneud gweithgareddau dysgu yn y cartref gyda'u plant ac mae cyfran uwch o**

rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn canu i'w plant nag ymysg y sampl cymharol cyfatebol. Mae darllen a chanu i blant yn gallu cael effaith fuddiol ar ddatblygiad sgiliau cyfathrebu ac iaith plant. Am y rheswm hwn, mae Dechrau'n Deg yn ceisio hybu rhieni i wneud hyn.

- 1.36. Ar y cyfan, mae bron tri chwarter y rhieni'n canu i'w plant o leiaf unwaith y dydd (73 y cant).¹³ Mae'r dadansoddiad yn nodi bod hyn yn cynnwys pedwar y cant yn fwy o rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, efallai byddai ymchwil pellach i ba agweddau o'r gwasanaeth Dechrau'n Deg sydd wedi gyrru'r cynnydd hwn yn ddefnyddiol er mwyn cyfrannu at ddatblygiad parhaus y rhaglen.
- 1.37. **Mae cyfran y rhieni sy'n bwydo ar y fron, diddyfnu eu plant ar yr oed priodol, neu'n imiwneiddio'u plant, ar y lefelau isaf erioed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, ac nid oedd dim wedi newid ymysg teuluoedd ar adeg yr arolwg.**
- 1.38. Adeg yr arolwg, roedd 39 y cant o'r holl famau yn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi gallu bwydo ar y fron o'i gymharu â 71 y cant a oedd wedi gallu bwydo ar y fron o leiaf unwaith ledled Cymru gyfan¹⁴. Roedd bron hanner y rhieni Dechrau'n Deg (48 y cant) yn diddyfnu eu plentyn o fewn un mis o'r amser a gynghorir (chwe mis). Lleiafswm oedd yn diddyfnu eu plentyn yn gynt (neu'n llai cyffredin yn hwyrach) na'r hyn a argymhellir ac mae'r rhieni hyn yn dueddol o berthyn i grwpiau mwy difreintiedig. Mae rhan fwyaf y rhieni Dechrau'n Deg wedi rhoi'r pigladau imiwneiddio diweddaraf i'w plant. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod y nifer sy'n imiwneiddio ychydig yn is yn ardaloedd Dechrau'n Deg na'r ffigur cenedlaethol.¹⁵
- 1.39. Nid yw canlyniadau'r arolwg yn datgelu llawer am effaith Dechrau'n Deg ar yr arferion hyn. Nid oes gwahaniaethau ystadegol positif na negatif rhwng teuluoedd Dechrau'n Deg a theuluoedd y grŵp cymharol o safbwynt y ffactorau hyn. O ran bwydo ar y fron, mae'r 'pwynt cychwyn' ymysg teuluoedd

¹³ Seilir y canlyniadau ar y rhieni hynny a lenwodd yr adran llenwi eu hunain (1,694)

¹⁴ Ffynhonnell: The Infant Feeding Survey 2010.

¹⁵ Er enghraifft, mae 95.8 y cant o blant 1 oed yng Nghymru wedi cael y brechiadau cyfun difftheria, tetanws a'r pas, y brechiad polio a'r brechiad haemophilias influenza B o'i gymharu â 91 y cant o blant yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Daw'r ffigur hwn o ddata imiwneiddio cenedlaethol Cymru yn y flwyddyn ariannol 2010 – 11, sef yr adeg agosaf at gyfnod ein gwaith maes. Seilir y data hwn ar y niferoedd sydd wedi imiwneiddio yn un oed, felly ni ellir ei gymharu'n union â'r plant yn ein sampl (rhwng saith ac 20 mis oed). Fodd bynnag, mae'n rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer pwyso a mesur y niferoedd sy'n cael eu himiwneiddio yn ardaloedd Dechrau'n Deg.

yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn is nag ymhlith teuluoedd mewn ardaloedd cymharol.¹⁶ Golyga hyn ei bod yn bosibl bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn cyfraddau bwydo ar y fron yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ond ni fyddai modd mesur hyn yn y dadansoddiad. O ran imiwneiddio, mae'r dystiolaeth yn dangos nad oedd dim gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd cymharol ac felly mae'n ymddangos yn llai credadwy bod gan deuluoedd Dechrau'n Deg bwynt dechrau is¹⁷.

- 1.40. At hynny, Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall newid arferion o ran y gweithgareddau hyn gymryd cryn dipyn o amser – ac yn sicr, mwy o amser na aeth heibio cyn y cynhaliwyd yr arolwg Ton 1. Felly, mae amrediad a lefel y newid arferion sy'n realistig i'w ddisgwyl o ganlyniad i Dechrau'n Deg yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Yn fwy na hynny, ar adeg yr arolwg yn 2010, roedd yr hawliau i gael cyswllt ag ymwelwyr iechyd yn amrywiol (nid oedd pob Awdurdod Lleol yn bodloni'r gymhareb 1:110 a nodwyd yn y canllawiau Dechrau'n Deg). Roedd hefyd amrywiaeth yn lefel y cymorth ym maes bwydo ar y fron o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac efallai bod hynny wedi cyfrannu at yr anhawster i ganfod yr effaith yn Nhon 1.

Casgliadau

- 1.41. Mae'n edrych yn debyg bod y rhaglen Dechrau'n Deg wedi llwyddo i gynyddu mynediad at wasanaethau ymwelwyr iechyd ac wedi arwain at brofiad mwy cadarnhaol i ddefnyddwyr. Mae tystiolaeth o'r arolwg hwn yn awgrymu llwyddiant wrth ddarparu gwasanaeth mwy cyfannol i rieni gydag ymwelwyr iechyd yn chwarae rôl allweddol wrth eu cyfeirio at fathau eraill o gymorth a luniwyd i wella'r canlyniadau i rieni ac i blant. Y cwestiwn allweddol i'w

¹⁶ Yn 2006, cyn cyflwyno'r rhaglen Dechrau'n Deg, roedd 43 y cant o famau naturiol yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg yn bwydo eu plentyn ar y fron o'i gymharu â 50% mewn ardaloedd cymharol a 55 y cant ledled Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar ddata gan Atebion Iechyd Cymru a daw o'r Gronfa Ddata Iechyd Plant Gymunedol Genedlaethol. Caiff y data hwn ei gasglu gan SQW o LSOAs Dechrau'n Deg ac LSOAs cymharol penodol. Cofiwch nad yw'r cymharu rhwng LSOAs union yr un fath â'r rheini a ddefnyddiwyd yn yr arolwg ond maent yn dal yn darparu data cymharu defnyddiol. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adroddiad llinell sylfaen 'Flying Start Baseline 10.1108' sydd ar gael yn <http://www.cymorthandflyingstartevaluation.co.uk/publications>.

¹⁷ Gweler uchod, nid yw'r data llinell sylfaen gan Atebion Iechyd Cymru yn dangos dim gwahaniaeth mewn cyfraddau imiwneiddio rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cymharol cyn Dechrau'n Deg.

archwilio ymhellach yn Nhon 2 yw a yw darparu mwy o wasanaethau yn arwain at well canlyniadau i blant a rhieni yn y dyfodol.

- 1.42. Mae'n ymddangos bod rhoi ffocws cryf ar ddatblygiad iaith cynnar drwy gydol y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus gyda rhywfaint yn fwy o rieni'n canu i'w plant yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg. Caiff effaith gweithgareddau o'r fath eu harchwilio ymhellach yn Nhon 2 wrth asesu galluoedd iaith plant i weld a yw Dechrau'n Deg wedi arwain at welliannau.
- 1.43. Mae'r arolwg wedi tynnu sylw at yr her barhaus i gynyddu'r cyfraddau bwydo ar y fron, sydd eisoes yn isel iawn, ymysg teuluoedd Dechrau'n Deg. Mae newid arferion magu plant mewn cysylltiad â bwydo ar y fron yn gofyn am newid diwylliannol sylweddol sy'n debygol o gymryd blynyddoedd lawer – mae hyn hefyd yn wir am imiwneiddio a diddyfnu hefyd i raddau llai. Bydd rhaid aros i weld cyn barnu llwyddiant y rhaglen o ran newid yr arferion hyn.
- 1.44. Mae Dechrau'n Deg wedi'i dargedu'n ddaearyddol i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae ar gael i'r holl deuluoedd sydd â phlant rhwng dim a thair blwydd oed yn yr ardaloedd hynny. Ei nod yw canfod yr angen a chyfeirio teuluoedd at wasanaethau ychwanegol a mathau o gymorth lle bo angen. Mae'n bwysig bod llunwyr polisi'n ystyried pa mor effeithiol yw'r rhaglen o ran llwyddo i gyrraedd y grwpiau gyda 'llawer o anghenion' o gofio'r darlun cymysg o lwyddiant yng nghanfyddiadau'r arolwg. Mae rhieni tro cyntaf a rhieni ifanc wedi cael lefelau uwch o gymorth, ond digon cymysg fu'r llwyddiant o ran cyrraedd y rheini sy'n profi anfanteision lluosog, sydd wrth natur, yn aml y rhai anoddaf eu cyrraedd. Efallai bydd llunwyr polisi am ystyried a oes cyfiawnhad dros roi mwy fyth o ffocws ar y grwpiau hyn, drwy wneud gwaith ymgysylltu ychwanegol o bosibl.
- 1.45. Mae'r arolwg Ton 1 wedi rhoi darlun rhagorol inni o natur teuluoedd Dechrau'n Deg a'r heriau a wynebant. Llwyddwyd i ddatgelu toeth o dystiolaeth ynghylch i ba raddau mae gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cyrraedd y bobl gywir a sut mae teuluoedd yn ymgysylltu â'r rhaglen. Mae'n bosibl y byddai rhagor o waith manylach i ymchwilio natur y ddarpariaeth Dechrau'n Deg (er enghraifft edrych yn fanylach ar ansawdd y gwasanaethau) yn ddefnyddiol wrth ddarparu rhagor o dystiolaeth am effeithiolrwydd y rhaglen o safbwynt cyflenwi gwasanaeth.

- 1.46. Wrth symud ymlaen, bydd yn bwysig bod llunwyr polisi a phartneriaethau lleol yn ystyried pa ddatblygiadau sydd eu hangen o bosibl i sicrhau bod y rhaglen yn canolbwyntio ar y gweithgareddau sydd fwyaf effeithiol wrth wella'r canlyniadau i blant. Dylid hefyd ystyried sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir a'r dulliau gweithredu yn ddigonol ac yn effeithiol er mwyn galluogi ymarferwyr i ymgysylltu'n effeithiol â'r teuluoedd mwyaf difreintiedig ac yn diwallu anghenion mwy cymhleth y teuluoedd hyn.
- 1.47. Bydd rhaid aros i weld a yw Dechrau'n Deg yn cyflawni ei brif nod o wella cyfleoedd bywyd plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd arolwg Ton 2 yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i ddarganfod i ba raddau mae'r rhaglen yn gwella canlyniadau datblygiad cynnar plant ac felly, gobeithio, yn cyfrannu at y prif nod hwn.